
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

Crynodeb i
bobl ifanc



Mae gwasanaethau cymdeithasol yn helpu teuluoedd pan mae angen hynny arnyn nhw, ac yn gwneud yn siŵr bod pobl yn ddiogel os ydyn nhw mewn risg.

Maen nhw hefyd yn helpu plant a phobl ifanc sydd:

- mewn perygl o gael eu niweidio;
- â phroblemau teuluol;
- ag anabledd;
- mewn helynt â'r heddlu;
- yn derbyn gofal; neu
- heb rywun yn gofalu amdanyn nhw fel y dylen nhw.

## Mae gan Gymru wasanaethau cymdeithasol hynod dda.

Rydyn ni'n helpu rhwng 150,000 a 200,000 o bobl y flwyddyn, ond mae Cymru'n tyfu ac yn newid. Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod pawb yn cael yr help sydd ei angen arnyn nhw.

Mae hyn yn golygu newid y ffordd rydyn ni'n gwneud rhai pethau.

## Deddf newydd

Rydyn ni wedi gwneud **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)** newydd

Mae hon yn manylu ar bopeth y mae'n rhaid i awdurdodau lleol (cynghorau) ei wneud i helpu pobl y mae angen gofal a chymorth arnyn nhw.

Mae Deddf yn gwneud newidiadau i'r gyfraith.

## Mae'r Ddeddf newydd wedi'i rhannu'n 11 rhan.



## Rhan 1: Cyflwyniad

### Rydyn ni eisiau i bobl gael bywydau iach a hapus.

Bydd y Ddeddf yn newid y ffordd y mae gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a gwasanaethau gofal eraill yn cydweithio mewn partneriaeth i helpu a chefnogi pobl.

Bydd y Ddeddf yma'n helpu i wneud yn siŵr bod pobl yn mwynhau llesiant ym mhob agwedd ar eu bywydau.

Mae llesiant yn golygu mwy na bod yn iach; mae'n golygu:

- bod yn iach o ran eich emosiynau;
- teimlo'n ddiogel lle rydych chi'n byw;
- bod â phob cyfle i wneud yn dda yn yr ysgol;
- bod â ffrindiau;
- bod yn rhan o gymunedau da a chryf;
- bod yn ddiogel rhag trais; a
- mwy o lawer.

## Rhan 2: Rolau

Mae'r Ddeddf yn golygu y bydd yn rhaid i bawb gydweithio i wella llesiant pobl y mae angen gofal a chymorth gwasanaethau cymdeithasol arnyn nhw.

Mae hyn yn cynnwys:

- gwrando ar eu barn a'u teimladau;
- eu trin nhw â pharch; ac
- ystyried eu gwahanol anghenion o ran diwylliant, credo ac iaith a materion eraill.

### Canlyniadau a nodau ar gyfer Cymru.

Bydd Gweinidogion Cymru'n ysgrifennu datganiad o'r nodau a'r canlyniadau rydyn ni eisiau eu cyflawni, a bydd yna God Ymarfer fel bod pawb yn gwybod beth y mae'n rhaid iddyn nhw ei wneud i gyrraedd y nodau yma.

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol wybod a deall anghenion y bobl sy'n byw yn eu hardal nhw fel bod gwasanaethau'n gallu eu cefnogi a gofalu amdanyn nhw.

### Cefnogi pobl yn gyflym

Mae'n bwysig camu i mewn yn gynnar i helpu pobl. Mae hyn yn helpu:

- plant i aros mewn teuluoedd;
- i leihau effaith anableddau;
- i atal cam-drin ac esgeuluso;
- i gael llai o blant yn troseddu; ac
- i gael llai o blant yn gorfod derbyn gofal.

**Mae mentrau cymdeithasol yn gallu helpu awdurdodau lleol i wneud hyn.**

### Gwybodaeth a chyngor

Mae'r Ddeddf hefyd yn golygu bod yn rhaid i awdurdodau lleol roi'r holl gyngor a gwybodaeth ddiweddaraf sydd eu hangen ar bobl. Bydd hyn yn helpu pobl i ddeall sut gall gofal a chymorth weithio.

Sefydliad sydd â mwy o ddiddordeb mewn helpu pobl neu'r amgylchedd nag mewn gwneud llawer o arian mewn elw yw Menter Gymdeithasol.



## Rhan 3: Asesiadau

Mae'r Ddeddf yn golygu bod gan bawb yr hawl i gael rhywun i ystyried eu hanghenion.

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol gynnwys y bobl sy'n cael eu hasesu, eu teuluoedd a'u gofalwyr, a gwrando ar eu barn ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau nhw.

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol hefyd edrych ar anghenion pobl sy'n 'ofalwyr', a'u hasesu. Mae hyn yn cynnwys gofalwyr ifanc.

Mae gan berson hawl hefyd i wrthod asesiad ond, er hynny, mae awdurdodau lleol yn gallu cwblhau un os ydyn nhw o'r farn bod person mewn risg.



# Rhan 4: Diwallu anghenion

Mae'r Ddeddf yn golygu bod yn rhaid i awdurdod lleol, ar ôl gwneud asesiad, edrych ar ba gymorth a gofal y mae gan bobl hawl i'w cael am ddim oddi wrth wasanaethau cymdeithasol, a beth y gallai fod yn rhaid iddyn nhw dalu amdano.

## Diwallu anghenion oedolion:

Mae gan bob oedolyn hawl i ofal a chymorth, ond weithiau mae yna ffi y bydd yn rhaid iddyn nhw ei thalu. Mae'r Ddeddf newydd yn manylu ar ganllawiau ar gyfer hyn.

## Diwallu anghenion plant a phobl ifanc:

Mae gan blant a phobl ifanc i gyd hawl i gael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw i'w cadw'n ddiogel.

## Diwallu anghenion gofalwyr:

Mae'r Ddeddf yn gwneud pethau'n haws i ofalwyr ac yn helpu i wneud yn siŵr eu bod nhw'n cael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw oddi wrth wasanaethau cymdeithasol yn ôl y galw.

## Pwerau arbennig:

Mae gan awdurdodau lleol 'bwerau arbennig' erbyn hyn i gamu i mewn os oes angen iddyn nhw wneud hynny, a helpu'r rheiny â'r angen mwyaf. Bydd hyn yn helpu i gadw pobl yn ddiogel.

## Taliadau uniongyrchol:

Weithiau mae pobl eisiau trefnu eu gofal a'u cymorth eu hunain. Gallan nhw ofyn i awdurdodau lleol roi'r arian iddyn nhw wneud hyn. Mae'r Ddeddf newydd yn manylu ar y camau i'w cymryd i hyn weithio.

## Hawl i 'gynllun gofal a chymorth':

Bydd yn rhaid i awdurdodau lleol wneud yn siŵr bod rhywun yn edrych ar gynlluniau gofal a chymorth ac yn eu newid lle bo angen. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol weithio gyda gwasanaethau a grwpiau eraill os yw eu cynlluniau'n gorgyffwrdd.

## Mae'r cynlluniau'n symud gyda'r bobl:

Os yw rhywun yn symud o un rhan o Gymru i ran arall, mae eu cynllun gofal a chymorth nawr yn symud gyda nhw. Mae hyn nes bydd eu hawdurdod lleol newydd yn trefnu asesiad a chynllun gofal a chymorth newydd.

Mae hyn yn golygu os bydd pobl yn symud, ni fyddan nhw'n colli'r help sydd ei angen arnyn nhw tra'u bod nhw'n aros.

## Diwallu anghenion eraill:

Mae'r Ddeddf yn gwneud yn siŵr:

- os oes yn rhaid i bobl dderbyn gofal, y gallan nhw symud i'r cartref gofal neu'r cyfleuster arall â chymorth o'u dewis os yw hynny'n bosibl; a
- bod holl eiddo rhywun dros 16 oed yn cael ei warchod os yw'n mynd i mewn i'r ysbyty.

## Rhan 5: Arian

Mae'r Ddeddf yn golygu bod gan awdurdodau lleol y pŵer i godi ffi am gymorth a gofal os oes angen iddyn nhw wneud hynny, ond dim ond pan mae rhywun yn gallu talu. Bydd yn rhaid iddyn nhw edrych ar gyllid pobl i weld beth y maen nhw'n gallu ei fforddio, gan nad ydyn ni eisiau i unrhyw un beidio â gallu cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnyn nhw.

## Rhan 6: Plant sy'n derbyn gofal

Mae'r Ddeddf newydd yn helpu i wneud yn siŵr bod y plant a'r bobl ifanc yma'n cael yr holl help a chymorth sydd eu hangen arnyn nhw i:

- gael lle i fyw;
- cael addysg;
- bod yn iach;
- cael cyswllt â'u teulu os yw hynny'n ddiogel; a
- chael cymorth pan maen nhw'n gadael gofal ac yn dod yn oedolyn.

Plant a phobl ifanc mewn gofal maeth, cartrefi plant, lleoedd diogel fel carchardai a llety arall, fel ysbytai, yw plant sy'n derbyn gofal. Awdurdodau lleol sy'n gofalu amdanyn nhw.

# Rhan 7: Cadw pobl yn ddiogel

Mae gan y Ddeddf newydd gamau i wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu cadw'n ddiogel oherwydd ei bod hi'n hynod bwysig bod hyn yn digwydd. Diogelu yw'r enw ar hyn.

## Oedolion:

Mae yna rai oedolion y mae angen gofal a chymorth arnyn nhw i gadw'n ddiogel rhag cam-drin ac esgeuluso. Mae'n rhaid i wasanaethau lleol gydweithio fel eu bod nhw'n sylweddoli pan mae pobl mewn risg o hyn, ac yn eu helpu nhw i gadw'n ddiogel.

Mae'r Ddeddf:

- yn rhoi'r hawl i awdurdodau lleol ymgeisio i lys am 'orchymyn amddiffyn a chefnogi oedolion' fel eu bod nhw'n gallu camu i mewn a chynnig help; ac
- yn gwneud i sefydliadau eraill ddweud wrth awdurdodau lleol os ydyn nhw o'r farn bod oedolyn mewn risg.

## Bwrdd diogelu annibynnol cenedlaethol:

Mae'r Ddeddf yn golygu y bydd yna grŵp newydd o weithwyr proffesiynol a fydd yn helpu ac yn cynghori Gweinidogion Cymru ar ddiogelu pobl.

## Byrddau diogelu ac amddiffyn:

Caiff grwpiau diogelu newydd eu sefydlu fel bod pob gwasanaeth ym mhob ardal awdurdod lleol yn gweithio i gadw oedolion a phlant yn ddiogel rhag eu niweidio, eu cam-drin neu eu hesgeuluso.

## Rhan 8: Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae'r Ddeddf yn manylu ar bob un o rolau gwahanol pobl mewn gwasanaethau cymdeithasol i wneud yn siŵr bod pawb yn cael yr help a'r cymorth sydd eu hangen arnyn nhw.

### Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol

Swydd y cyfarwyddwr yw gwneud yn siŵr bod gwasanaethau cymdeithasol yn eu hawdurdod lleol yn gwneud y pethau y maen nhw i fod i'w gwneud ac yn gweithio i gyrraedd y nodau sydd gennym ni ar gyfer pobl sy'n byw yng Nghymru. Mae'r Ddeddf newydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddweud pa brofiad a nodweddion y dylai gyfarwyddwr feddu arnyn nhw, fel ei fod y person gorau i'r swydd.

### Cod Ymarfer

Bydd hyn yn manylu ar yr holl bethau y dylai gwasanaethau cymdeithasol eu gwneud ac ar sut dylen nhw eu gwneud.

Mae'r Ddeddf newydd yn golygu y gall Gweinidogion Cymru gamu i mewn a bod â'r pŵer i gymryd unrhyw gamau angenrheidiol os ydyn nhw o'r farn nad yw awdurdod lleol yn gwneud y pethau y dylai eu gwneud.

## Rhan 9: Cydweithio

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n haws i awdurdodau lleol weithio gydag:

- adrannau llywodraeth eraill sy'n rhoi gwasanaethau;
- sefydliadau sy'n bartneriaid; a
- gwasanaethau iechyd.

Mae cydweithio'n helpu pawb i gael yr help a'r cymorth sydd eu hangen arnyn nhw.

### Mabwysiadu:

Mae yna lawer o blant a phobl ifanc yng Nghymru sydd eisiau teulu. Mae'r Ddeddf yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru arwain awdurdodau lleol fel bod mabwysiadu'n ddiogel ond yn digwydd yn gyflymach.

## Rhan 10: Cwynion

Weithiau, efallai nad yw pobl yn hapus â'u cymorth oddi wrth wasanaethau cymdeithasol, ac maen nhw eisiau cwyno. Mae'r Ddeddf yn manylu ar gamau sy'n hawdd i'w defnyddio fel bod pawb yn deall sut dylid trin cwynion.

Mae hefyd yn ei gwneud hi'n haws i bobl:

- ddweud eu dweud;
- cwyno os oes angen hynny; a
- chael eiriolwr i'w helpu nhw os oes angen hynny arnyn nhw.

Mae'r Ddeddf newydd yn ei gwneud hi'n bosibl i bobl gwyno i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynglŷn â gofal y maen nhw wedi talu amdano eu hunain trwy daliadau uniongyrchol, yn ogystal â gofal y mae awdurdodau lleol yn ei roi.

Rhywun sy'n ochri â chi ac sy'n eich helpu i ddweud eich dweud yw eiriolwr. Gall hyn fod yn rhiant, yn ofalwr, yn athro neu, os nad oes gennych chi rywun o'r fath, yna gall MEIC helpu.

## Rhan 11: Pethau eraill

Mae'r Ddeddf yn gweithio ochr yn ochr â nodau a chyfreithiau eraill sydd gennym ni yng Nghymru i wneud bywydau pobl yn well a'u helpu nhw i fwynhau llesiant.

Mae yna lawer o faterion eraill sy'n gysylltiedig â gwasanaethau cymdeithasol y mae'r Ddeddf yn helpu i ddelio â nhw. Mae'r rhain yn cynnwys newidiadau yn ein cymdeithas fel:

- faint mae gwasanaethau cymdeithasol yn ei gostio;
- y ffaith bod pobl yn byw yn hirach;
- bod pobl eisiau rheolaeth ar y cymorth a'r gofal y maen nhw'n eu derbyn;
- y swm fwy o bresgripsiynau a meddyginiaeth y mae eu hangen ar bobl; a
- newidiadau mewn budd-daliadau llesiant a chredydau treth y mae pobl yn eu cael.

Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi sylw i:

- sut bydd hyn yn effeithio ar awdurdodau lleol;
- sut bydd cynlluniau'n cael eu rhoi ar waith a'u cyflawni;
- sut caiff yr arian ei roi i awdurdodau lleol fel eu bod nhw'n gallu gwneud y pethau sydd angen iddyn nhw eu gwneud; ac
- y risgiau y bydd awdurdodau lleol yn eu hwynebu os na fyddan nhw'n cydymffurfio â'r gyfraith newydd hon.

### Amserlenni

Mae'r Ddeddf yn cyflwyno llawer o newidiadau, ond mae angen mwy o fanylion ynglŷn â sut bydd rhai o'r rhain yn gweithio. Byddwn ni'n ymgynghori ynglŷn â'r manylion pellach yma yn nhymor yr hydref 2014 ac wedi hynny, ac yna byddwn ni'n gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol.

Byddwn ni hefyd yn gwneud yn siŵr bod staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau cymdeithasol yn cael yr hyfforddiant sydd ei angen arnyn nhw i roi'r newidiadau ar waith.

## Diolch am ddarllen hwn.

Os ydych chi eisiau darllen y Ddeddf lawn, mae hi i'w gweld yma:

Os oes angen ichi gysylltu â ni:

SustainableSocialServices@Wales.GSI.Gov.UK

neu:

Cangen Gweithredu Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ